Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn

**Heol y Bardd, Porth Tywyn,**
**Sir Gaerfyrddin SA16 0NL**
**Ffôn:- 01554 832101**
**Ebost: admin@parcytywyn.ysgolccc.cymru**
**www.ysgolparcytywyn.co.uk**
**Pennaeth / Headteacher : Mr C Davies**

11/02/2021

# PWYSIG – TREFNIADAU DYCHWELYD PLANT CYFNOD SYLFAEN O 22.02.21

Annwyl Rieni / Warcheidwaid,

Prynhawn dydd Mercher, rhyw chwe diwrnod wedi i'r Gweinidog Addysg, Kirsty Williams ddatgan fod pob plentyn yn y Cyfnod Sylfaen (oed 3 i 7) yn cael dychwelyd i'r ysgol ar ôl yr hanner tymor, derbyniom gyfarwyddyd a chanllawiau gweithredol. Gyda dim ond dau ddiwrnod cyn y gwyliau, bu rhaid i ysgolion weithredu a dechrau ar y gwaith trefnu ar gyfer Chwefror 22ain. Ni fydd yr holl wybodaeth gennym cyn dydd Gwener, Chwefror 12fed , felly gofynnwn yn garedig i chi gadw llygaid ar Ap yr ysgol am unrhyw ddatblygiadau / newidiadau. Felly, ysgrifennaf atoch heddiw gyda pheth gwybodaeth bwysig er mwyn i chi wneud trefniadau cyn i blant y Cyfnod Sylfaen ddychwelyd yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru a'r Awdurdod Lleol.

**Trefniadau'r Dosbarthiadau (Swigod)**

Disgwylir i ysgolion gadw dosbarthiadau o blant ar wahân a heb gymysgu â phlant o ddosbarthiadau eraill. Dyma oedd ein systemau Tymor yr Hydref a bydd y systemau yma yn parhau. Gweler isod, ein trefniadau darwahanu i groesawi blant y Cyfnod sylfaen yn ôl yn ddiogel yn ystod yr wythnos 22-26/02/21.

- Dydd Llun Chwefror22ain – Dim plant ar safle'r ysgol (ac eithrio HWB gofal i blant gweithwyr allweddol sydd eisoes wedi defnyddio'r ddarpariaeth) – diwrnod i staff baratoi dosbarthiadau, adolygu asesiadau risg ayb.
- Dydd Mawrth Chwefror 23ain – Plant meithrin rhan amser oedd fod i ddechrau yn Ionawr i ddychwelyd (nid plant meithrin rhan amser sydd wedi dechrau yn yr ysgol yn mis Medi!)
- Dydd Mercher Chwefror 24ain – Plant meithrin rhan amser oedd fod i ddechrau yn Ionawr (nid plant meithrin rhan amser sydd wedi dechrau yn yr ysgol yn mis Medi!) yn ogystal â dosbarth Blwyddyn 1 Miss James a Blwyddyn 2 Mr Evans i ddychwelyd.
- Dydd Iau Chwefror 24ain – Plant meithrin rhan amser i gyd, Meithrin Llawn amser a Derbyn i ddychwelyd.

Felly bydd pob plentyn Cyfnod Sylfaen nôl yn eu dosbarthiadau erbyn dydd Iau 25/02/2021 ac yn derbyn addysg llawn wyneb i wyneb. Ni fydd unrhyw dysgu ar lein yn cael eu darparu yn ystod yr wythnos hon i blant y Cyfnod Sylfaen.

**Amseroedd yr ysgol / dosbarthiadau**

Yr her yw cael y plant i gyd i mewn i'r adeilad ac i adael yr adeilad mewn modd trefnus ac yn ddiogel heb gymysgu gyda phlant o 'swigod' eraill. Gofynnir i rieni gynorthwyo yn y broses hon gan sicrhau eu bod yn dilyn ein trefniadau bore a phrynhawn a dilyn canllawiau ymbellhau Llywodraeth Cymru. Gwerthfawrogir eich cymorth a'ch cydweithrediad wrth aros i'ch plentyn ddod i mewn i'r ysgol a gadael yr ysgol bob dydd. Gofynnir i chi lynu at yr amseroedd gan beidio â chyrraedd yn rhy gynnar

gan y byddwch yn amharu ar grŵp arall o blant a rhieni. Sefwch yn drefnus gan adael 2 fetr o bellter rhyngoch chi a disgwylir i bob rhiant wisgo gorchudd wyneb ar dir yr ysgol. Caniateir un rhiant gyda'i blentyn wrth iddo ollwng a chasglu. Ni chaniateir i riant gasglu disgybl arall, hyd yn oed ei fod yn berthynas deuluol.

Ni fydd pob dosbarth yn dechrau a gorffen yr un amser. Byddwn yn parhau a'n system amseroedd wedi'u darwahanu. Gweler yr ameroedd.

**PEIDIWCH ymuno a'r rhes tan amser dynodedig eich plentyn!** ***DO NOT enter the queue until your child's designated time slot!***

| Lleoliad : Gat wrth y prif fynedfa<br>*Location : Gate by main office* | Amser Cyrraedd /<br>Arrival time | Amser gadael /<br>Departure time |
|---|---|---|
| **Blwyddyn / Year 2**<br>Mr D Evans | **8:45** | **2.35** |
| **Blwyddyn / Year 1**<br>Miss C James | **8:55** | **2:45** |
| **Derbyn / Reception**<br>Mrs J Williams | **9:05** | **2:55** |
| **Meithrin Llawn / FT nursery**<br>Miss A Davies | **9:15** | **3:05** |
| *** Meithrin bore/**<br>*** Morning nursery** Mrs S Hughes | * Prif fynedfa / *Main entrance*<br>**9:25** | * Gat wrth y gegin / *Collect from gate by kitchen*<br>**11:30** |

Os oes mwy nag un plentyn yn y teulu, yna bydd disgwyl i rieni i ollwng y plant ar yr amser cynharaf a dychwelyd i nol y plant yn ol yr amseroedd dynodedig i bob dosbarth.

*If a family has more than one child attending, then they are expected to drop all siblings off at the earliest time and collect at the allocated times given to each class.*

**BETH OS YDW I'N FWY NA UN PLENTYN MEWN GRWPIAU BLWYDDYN WAHANOL?** Os oes gan deulu fwy nag un plentyn yn mynychu, yna mae disgwyl iddyn nhw ollwng brodyr a chwiorydd i ffwrdd ar yr amser cynharaf a chasglu ar yr amseroedd a neilltuwyd i bob dosbarth h.y. codi'r brodyr a chwiorydd ar yr amser a neilltuwyd iddynt o'r man gadael a ddyrannwyd iddynt.

Ar ôl i chi adael/casglu eich plentyn, gofynnir i rieni wedyn wneud eu ffordd allan o'r ysgol gan ddilyn y system unffordd. Mae'n bwysig iawn nad yw rhieni'n ymgynnull o amgylch tir yr ysgol / maes parcio - ni allwn orbwysleisio pa mor bwysig yw hyn i leihau trosglwyddiad yn ein cymunedau. Nodwch y bydd staff wrth law i oruchwylio a chefnogi lle bo angen. Gofynnwn i chi i barchu rheolau pellter cymdeithasol 2 fetr gyda'n staff hefyd.

**Ciniawau ysgol / Clwb brecwast**

Ni fydd darpariaeth clwb brecwast na chinio ysgol ar gyfer yr wythnos 22-26.02.21. Gobeithiwn y bydd y ddarpariaeth hon yn ailgychwyn ar 01.03.21. Fe'ch hysbysir o hyn ar ôl dychwelyd ar ôl hanner tymor. Yn sgil hyn, bydd angen i ddisgyblion llawn amser dod â phecyn bwyd gyda nhw yn ystod y dyddiau y maent yn mynychu'r ysgol yn ystod yr wythnos gyntaf ar ôl hanner tymor.

Bydd clwb brecwast yn ailgychwyn ddydd Llun 01.03 ar gyfer plant meithrin llawn amser i Flwyddyn 2. Bydd y ddarpariaeth clwb brecwast ond ar gael i'r disgyblion Cyfnod Sylfaen a ddefnyddiodd y ddarpariaeth y tymor diwethaf yn ôl y meini prawf canlynol :

1) Disgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol Am Ddim (PYD)
2) Disgyblion sydd ar restr fregus yr ysgol
3) Plant Gweithwyr Allweddol - (y rhai sydd eisoes wedi'u defnyddio ein darpariaeth HWB dros y cyfnod clo)

Gofynnwn i chi ystyried yn llawn a oes angen lle arnoch gan y gallai olygu y gallai teuluoedd sydd wir angen lle fod ar eu colled! Bydd drysau i'r clwb brecwast (drws allannol y neuadd) yn agor am 8:15 ac yn cau am 8:30yb.

CINIO YSGOL : Bydd ciniawau ysgol yn ailddechrau ddydd Llun y 1af o Fawrth. Cofiwch fod angen archebu a thalu drwy Parent Pay. Bydd angen i chi archebu pryd o fwyd eich plentyn ymlaen llaw erbyn 8:00yb ar y diwrnod y mae angen pryd o fwyd ar eich plentyn neu, fel arall, gallwch archebu ymlaen llaw am yr wythnos gyfan.

**Rôl rieni**

Mae'n bwysig cofio nad yw dychwelyd i'r ysgol yn golygu dychwelyd i fywyd normal, ac ni ddylai plant fod yn cymysgu'r tu allan i'r ystafell ddosbarth. Mae ein hysgolion wedi llwyddo i ddarparu amgylchedd diogel i'n plant a'n staff, ond dim ond yn yr ysgol y mae swigod ystafell ddosbarth yn berthnasol, a rhaid cydymffurfio â'r gofynion i aros gartref.

**Gwybodaeth allweddol i rieni : Profi, Olrhain, Diogelu**

Mae gweithdrefnau POD bellach wedi ailgychwyn o ran disgyblion ysgol boed iddyn nhw mynychu'r ysgol neu yn parhau a dysgu cyfunol o adref (CA2).

Ni ddylech, dan unrhyw amgylchiadau, anfon eich plentyn i'r ysgol:

- os yw'n teimlo'n sâl, gydag unrhyw un o'r tri symptom COVID-19 a nodwyd (peswch parhaus newydd, tymheredd uchel neu golli blas neu arogl) neu
- mae wedi cael prawf COVID-19 positif yn ystod y 10 diwrnod diwethaf neu
- os yw'n byw mewn cartref gyda rhywun sydd â symptomau COVID-19 neu sydd wedi cael prawf COVID-19 positif yn ystod y 10 diwrnod diwethaf.

**<u>**PWYSIG**</u>**Os bydd eich plentyn yn mynd yn sâl tra eu bod adref (gan gynnwys adeg gwyliau a'r penwythnos) gydag unrhyw un o symptomau COVID-19 neu os oes angen iddo hunanynysu, **MAE RHAID I RIENI CYSYLLTU AR UNWAITH A'R SYSTEM PROFI, OLRHAIN, DIOGELU** drwy ffonio Delta Wellbeing ar <u>0300 333 2222</u> neu drwy ebostio TTP@deltawellbeing.org.uk a fydd yn hysbysu'r ysgol ar eich rhan.

**Mae fy mhlentyn wedi derbyn prawf :** Os oes prawf yn **<u>NEGYDDOL</u>**, gall hunan-ynysu ddod i ben i bawb cyn belled nad oes neb arall ar yr aelwyd wedi datblygu symptomau. FODD BYNNAG – MAE RHAID I CHI I DDANFON TYSTIOLAETH O'R PRAWF I'R YSGOL CYN I'CH PLENTYN DYCHWELYD I'R YSGOL! Danfonwch e bost gyda 'screen shot' i'r ysgol : admin@parcytywyn.ysgolccc.cymru. Oni bai ein bod yn derbyn y tystiolaeth yma, yna ni fyddwn yn gadael i blentyn ddychwelyd. Os yw'r prawf yn **BOSITIF**, bydd y tim profi, olrhain, diogelu yn cysylltu â chi a'r ysgol i gynghori ymhellach.

**HWB gweithwyr critigol**

Bydd darpariaeth HWB gofal plant ar gyfer gweithwyr critigol yn parhau ar gyfer y disgyblion CA2 sydd wedi bod yn defnyddio'r gwasanaeth. Caniateir i ddisgyblion Cyfnod Sylfaen sydd wedi defnyddio'r ddarpariaeth hon yn ystod y cyfnod cau presennol gael mynediad i'r ddarpariaeth hon yn ystod yr wythnos gyntaf yn ôl ar ôl hanner tymor os nad yw eu dosbarth wedi dychwelyd i ddysgu

wyneb yn wyneb yn unol â'n hamserlen dychwelyd gyfnodol. Bydd ffurflen cais archebu lle yn cael ei rhannu gyda'r rhieni hyn erbyn dydd Gwener 12.02.21. Rydym yn annog rhieni i ystyried yn ofalus iawn a yw'n gwbl hanfodol eich bod yn cael gofal plant gan eich ysgol. Ni ddylai rhieni wneud cais am ofal plant os nad ydynt ar yr amserlen i weithio ac os nad ydynt wedi edrych ar bob opsiwn posibl arall ar gyfer gofal plant, nac os ydyn nhw neu eu partneriaid yn gallu gweithio gartref.

Sylwch NA fydd disgyblion Cyfnod Sylfaen yn gallu mynychu'r HWB fel darpariaeth cofleidiol ‘wrap around’unwaith y bydd dosbarth y plentyn wedi dychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb. Mae hyn er mwyn lleihau nifer y cysylltiadau yn yr ysgol / ar draws swigod.

Bydd disgyblion CA2 (B3 i 6) sy'n mynychu'r HWB ar gyfer gweithwyr allweddol hefyd yn gallu defnyddio a mynychu'r ddarpariaeth clwb brecwast. Bydd y disgyblion hyn yn cael mynediad i'r clwb brecwast trwy'r brif fynedfa (derbynfa) lle bydd angen i riant lofnodi'r disgybl i fewn rhwng 8:15 ac 8:30 cyn y gallant gael mynediad i'r ddarpariaeth. Ni chaniateir mynediad i blant gweithwyr HWB i'r clwb brecwast rhwng 8: 30-9: 00 - os nad ydynt yn yr adeilad erbyn 8:30, yna bydd y disgyblion yn cael mynediad i'r HWB am 9:00yb.

**Parhad dysgu ar-lein ar gyfer disgyblion CA2**
Bydd disgyblion CA2 yn parhau gyda'n darpariaeth ar-lein bresennol ar ôl hanner tymor. Gweler ein gweithdrefnau dysgu cyfunol a'n hamserlenni ar wefan yr ysgol:
https://www.ysgolparcytywyn.co.uk/dysgu-o-bellter-distance-learning/
Bydd unrhyw ddatblygiadau o ran caniatáu i'r disgyblion hyn ddychwelyd i'r ysgol yn cael eu cyhoeddi gan y Prif Weinidog yn ei adolygiad 21 diwrnod. Bydd yr un nesaf yn cael ei gynnal ddydd Gwener 19eg Chwefror. Fel yr arfer, byddwn yn eich hysbysu am unrhyw ddatblygiadau.

Diolch i chi i gyd am eich cefnogaeth yn ystod y misoedd heriol diwethaf. Bu'n rhaid gwneud nifer o newidiadau i sicrhau diogelwch yr holl ddisgyblion ac rydym hefyd yn ddiolchgar i holl staff yr ysgol am eu hymroddiad a'u holl waith caled. Os oes gennych unrhyw ymholiadau, peidiwch ag oedi cyn cysylltu â mi yn yr ysgol heddiw neu yfory neu gallwch anfon e-bost ataf yn uniongyrchol craig.davies@parcytywyn.ysgolccc.cymru

Yn gywir,

*C Davies*
Pennaeth / Headteacher